# Canllawiau ar Weithrediad Swyddogaethau Marchnad Fewnol y DU, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)

**21 Medi 2021**
**OIM1**

Office for the Internal Market

Part of the Competition and Markets Authority

© Hawlfraint y Goron 2021

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, am ddim, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

# Cynnwys

*Tudalen*

1. Cyflwyniad .......... 2
2. Y Fframwaith Cyfreithiol .......... 5
3. Y Fframwaith Dadansoddol .......... 16
4. Egwyddorion Blaenoriaethu .......... 24
5. Trefniadau Gweithdrefnol .......... 27
6. Geirfa .......... 32

# 1. Cyflwyniad

## Diben a chwmpas y Canllawiau

1.1 Mae'r ddogfen ganllaw hon yn nodi cyngor a gwybodaeth gyffredinol, yn unol ag adran 39(1) o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU (y Ddeddf), ynghylch sut mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn disgwyl mynd ati i arfer y swyddogaethau marchnad fewnol a roddir iddo yn Rhan 4 o'r Ddeddf.

1.2 Mae'r canllawiau hyn yn egluro swyddogaethau'r CMA fel y'u nodir yn y Ddeddf, sef darparu cyngor, monitro ac adrodd annibynnol, i gefnogi gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU yn dilyn dychwelyd pwerau o'r UE i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

1.3 Diben y ddogfen hon yw i:

- Arwain y rhai sy'n ceisio gwybodaeth ynghylch sut ac o dan ba amgylchiadau y gallant gael gafael ar gyngor ac adroddiadau technegol gan y CMA, a'r amserlenni a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â hynny.

- Rhoi trosolwg i randdeiliaid o sut y bydd yr OIM yn cyflawni ei swyddogaethau a nodir yn y Ddeddf, gan gynnwys rhai o'r cysyniadau technegol a'r dulliau dadansoddol dan sylw, a'n dull o dargedu a blaenoriaethu ein hadnoddau.

1.4 Nid yw'r ddogfen hon yn ddatganiad pendant o, neu'n cymryd lle'r gyfraith ei hun. Dylid cyfeirio at y ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol ac, os oes angen, dylid ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

## Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)

1.5 Sefydlodd Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 y CMA fel awdurdod cystadleuaeth y DU sy'n gyfrifol am sicrhau bod cystadleuaeth a marchnadoedd yn gweithio'n dda i ddefnyddwyr. Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn adran anweinidogol annibynnol. Mae ei waith yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd ac mae'n cael ei arwain gan y Prif Weithredwr a'r uwch dîm rheoli.

## Swyddfa'r Farchnad Fewnol (OIM)

1.6 **Swyddfa'r Farchnad Fewnol (OIM)**, a fydd yn eistedd o fewn y CMA, fydd yn ymgymryd â swyddogaethau a phwerau'r CMA o dan Ran 4 o'r Ddeddf. Yng ngweddill y ddogfen hon, rydym yn defnyddio'r term OIM wrth gyfeirio at y CMA yn cyflawni ei swyddogaethau marchnad mewnol.

1.7 Amlinellir cwmpas swyddogaethau'r OIM yn fanwl yn y canllawiau hyn. I grynhoi, bydd ei rôl yn cynnwys monitro ac adrodd ar iechyd marchnad fewnol y DU. Bydd yn darparu cyngor technegol ac economaidd nad yw'n rhwymol i bob un o bedair llywodraeth y DU ar effaith darpariaethau rheoliadol penodol y maent yn eu cyflwyno ar y farchnad fewnol. Bydd ei waith yn cynorthwyo llywodraethau i ddeall pa mor effeithiol y mae cwmnïau yn gallu gwerthu eu cynhyrchion a'u gwasanaethau ar draws pedair cenedl y Deyrnas Unedig, ac effaith darpariaethau rheoleiddiol ar hyn, gan gynnwys effaith cystadleuaeth a dewis y defnyddwyr, i'w hasesu ochr yn ochr ag ystyriaethau polisi ehangach.

1.8 Mae'r Ddeddf yn sefydlu panel OIM, sy'n cynnwys cadeirydd panel (a fydd yn eistedd ar fwrdd y CMA) a nifer o aelodau panel. Gall cadeirydd y panel OIM, yn ôl yr angen, sefydlu grwpiau gorchwyl OIM i ymgymryd â gwaith yr OIM yn unol ag unrhyw awdurdodiad gan y Bwrdd CMA. Rhaid i bob grŵp gorchwyl OIM gynnwys o leiaf tri aelod o'r panel OIM. Rhaid i'r grwpiau gorchwyl OIM weithredu'n annibynnol i'r Bwrdd CMA.[1] Bydd y Bwrdd CMA yn cynhyrchu canllawiau i'r Panel OIM ar weithdrefnau'r grwpiau gorchwyl.

### *Rôl gynghorol, sydd ddim yn cynnwys gwneud penderfyniadau*

1.9 Nod yr OIM yw cynorthwyo awdurdodau cenedlaethol perthnasol ledled y DU, trwy gyngor technegol, i reoli datblygiad posibl gwahanol ddulliau rheoleiddio mewn ffordd sy'n amddiffyn gweithrediad effeithiol y farchnad fewnol.

1.10 Er mwyn cyflawni hyn, bydd yr OIM yn sicrhau ei fod yn dangos tryloywder, annibyniaeth, trylwyredd dadansoddol a didwylledd ac yn gweithio i ddod yn ganolfan arbenigedd ar faterion marchnad fewnol a all, yn gyson â'i swyddogaethau statudol, fod yn adnodd i fusnesau, llunwyr polisi a rhanddeiliaid eraill ledled y DU.

### *Ymrwymiad i adolygiad parhaus*

1.11 O ystyried bod y swyddogaethau marchnad fewnol a roddir i'r OIM yn newydd, mae'r OIM yn disgwyl y bydd angen diweddaru'r canllawiau hyn o bryd i'w gilydd i adlewyrchu profiad sy'n dod i'r amlwg yn ogystal ag unrhyw newidiadau mewn arfer gorau a'r gyfraith.

[1] Gweler Atodlen 3 i'r Ddeddf.

## Strwythur

1.12 Mae gweddill y ddogfen hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Pennod 2** yn disgrifio’r fframwaith cyfreithiol fel y mae’n berthnasol i ddyletswyddau, pwerau a swyddogaethau’r OIM fel yr amlinellir yn Rhan 4 o’r Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys darparu cyngor neu adroddiadau annibynnol i lywodraethau ledled y DU ar ddarpariaethau rheoliadol penodol, naill ai cyn neu ar ôl iddynt gael eu gwneud, monitro strwythuredig o sut mae marchnad fewnol y DU yn gweithio, a phwerau dewisol i gynnal adolygiadau ad hoc sy'n berthnasol i weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU.

- Mae **Pennod 3** yn amlinellu’r cysyniadau technegol ac yn rhoi trosolwg o’r dull dadansoddol y bydd yr OIM yn ei fabwysiadau wrth gyflawni ei swyddogaethau.

- Mae **Pennod 4** yn amlinellu egwyddorion blaenoriaethu y bydd yn eu defnyddio wrth benderfynu pa geisiadau i’w derbyn a pha waith monitro sydd ei angen.

- Mae **Pennod 5** yn amlinellu’r gweithdrefnau ar gyfer gofyn am gyngor gan yr OIM a’r prosesau allweddol y bydd yn eu defnyddio.

- Darperir **Geirfa** sy’n diffinio rhai termau allweddol.

## Diffiniadau

1.13 Trwy’r ddogfen, mae rhai geiriau’n cael eu **<u>tanlinellu a’u rhoi mewn print trwm.</u>** Mae'r rhain yn eiriau y cymhwyswyd diffiniad gweithio penodol iddynt yng nghyd-destun cyflawni swyddogaethau'r farchnad fewnol a nodir ym Mhennod 2. Mae manylion pellach am y rhain wedi’u cynnwys yn yr Eirfa.

# 2. Y Fframwaith Cyfreithiol

## Beth mae'r bennod hon yn wneud?

2.1 Mae'r Bennod hon yn disgrifio'r fframwaith cyfreithiol sy'n berthnasol i swyddogaethau a phwerau'r OIM yn unol â Rhan 4 o'r Ddeddf. Nid yw'n darparu dehongliad llawn na phendant o unrhyw Ran o'r Ddeddf nag effeithiau'r Ddeddf. Wrth grynhoi'r darpariaethau deddfwriaethol, nid yw'n cymryd lle'r ddeddfwriaeth ac ni ddylid ei ystyried yn gyngor cyfreithiol.

## Trosolwg o swyddogaethau'r OIM

2.2 Mae prif swyddogaethau'r OIM yn dod o fewn y ddau gategori canlynol:

- monitro ac adrodd ar weithrediad marchnad fewnol y DU;[2] a
- darparu adroddiadau (neu **gyngor**[3] fel sy'n berthnasol) ar ddarpariaethau rheoliadol penodol, gan gynnwys cynigion ynghylch darpariaethau o'r fath, ar gais **awdurdod cenedlaethol perthnasol**,[4] hynny yw Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Gogledd Iwerddon.

2.3 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i'r OIM roi sylw i'r amcan a ganlyn: cefnogi, trwy gymhwyso arbenigedd economaidd a thechnegol arall, weithrediad effeithiol y farchnad fewnol yn y DU gan gyfeirio'n benodol at ddibenion Rhannau 1, 2 a 3 o'r Ddeddf.[5] Ar ben hynny, wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i'r OIM roi sylw i'r angen i ymddwyn yn deg mewn perthynas ag awdurdodau cenedlaethol perthnasol.[6]

2.4 Mae gwybodaeth am Rannau 1 i 3 o'r Ddeddf ar gael yn y Nodiadau Eglurhaol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf. I ddarparu rhywfaint o gyd-destun i gwmpas prif swyddogaethau'r OIM fel yr amlinellir yn Rhan 4 o'r Ddeddf, darperir cyflwyniad cryno i Rannau 1 i 3 o'r Ddeddf isod.

---

[2] Gweler adran 33 o'r Ddeddf.
[3] Gweler Geirfa.
[4] Gweler Geirfa – Gweler hefyd adran 34 i 36 o'r Ddeddf.
[5] Gweler adran 31(2) a (3).
[6] Adran 31(4).

***Rhannau 1 i 3 o’r Ddeddf***

2.5 Mae rhannau 1 i 3 o’r ddeddf yn sefydlu’r **egwyddorion mynediad i’r farchnad**[7] o **gyd-gydnabod** a **pheidio â gwahaniaethu** ar draws pedair cenedl y DU. Yn fyr, mae'r egwyddor cyd-gydnabod yn sicrhau, heb ofynion pellach, y gellir gwerthu cynnyrch sydd wedi'i gynhyrchu'n gyfreithiol yn y DU, neu wedi'i fewnforio i mewn i’r DU, ac y gellir ei werthu'n gyfreithiol mewn un rhan o'r DU, mewn unrhyw ran arall o'r DU, neu y gellir darparu gwasanaeth y gellir ei ddarparu'n gyfreithiol mewn un rhan o'r DU mewn rhan arall o'r DU. Mae'r egwyddor peidio â gwahaniaethu yn sicrhau nad oes gwahaniaeth uniongyrchol neu anuniongyrchol rhwng nwyddau neu wasanaethau sy'n dod o rannau eraill o'r DU (o blaid nwyddau neu wasanaethau lleol). Yn gyffredinol, mae Rhannau 1 i 3 o’r Ddeddf yn cwmpasu’r materion canlynol:

- Mae **Rhan 1** o’r Ddeddf yn diffinio ac yn sefydlu’r egwyddorion mynediad i’r farchnad mewn perthynas â nwyddau.
- Mae **Rhan 2** o’r Ddeddf yn diffinio ac yn sefydlu’r egwyddorion mynediad i’r farchnad mewn perthynas â gwasanaethau.
- Mae **Rhan 3** o’r Ddeddf yn cyflwyno system ar gyfer adnabod cymwysterau proffesiynol ledled y DU.

## Beth sydd angen i’r OIM ei wneud?

***Monitro ac adrodd ar weithrediad marchnad fewnol y DU***

2.6 Mae gan y swyddogaeth monitro ac adrodd, a gyfeirir ati ym mharagraff 2.2 uchod, ddwy elfen. Yn gyntaf, mae’n cwmpasu adolygiadau ac adroddiadau y gall yr OIM ymgymryd â nhw yn ôl ei ddisgresiwn ei hun. Yn ail, mae’n cynnwys dau gylch adrodd gorfodol, sef blynyddol a phob pum mlynedd. Ymdrinnir â’r swyddogaethau hyn yn eu tro isod.

*Adolygiadau ac adroddiadau yn ôl disgresiwn*

2.7 O dan adran 33 (1) o'r Ddeddf, gall yr OIM gynnal adolygiad o unrhyw fater y mae'n ei ystyried yn berthnasol i asesu neu hyrwyddo gweithrediad effeithiol y farchnad fewnol yn y DU a/neu ddarpariaethau Rhannau 1 i 3 o'r Ddeddf.[8]

---

[7] Gweler Geirfa.
[8] Gweler adran 33(1).

2.8 Wrth ystyried a ddylid arfer ei ddisgresiwn i gynnal adolygiad o fater (neu faterion) penodol o dan adran 33(1), bydd yr OIM yn rhoi sylw dyledus i'w amcan i gefnogi gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU, gan gyfeirio'n benodol at ddibenion Rhannau 1 i 3 o'r Ddeddf (gweler paragraffau 2.3 i 2.5 uchod). Gellir cynnal adolygiad o dan adran 33(1) hefyd mewn ymateb i gynnig gan drydydd parti, gan gynnwys Llywodraeth y DU neu unrhyw un o'r gweinyddiaethau datganoledig.[9] Fodd bynnag, ni all yr OIM gynnal adolygiad i Brotocol Gogledd Iwerddon neu o ddeddfwriaeth sy'n ei weithredu (gweler hefyd paragraffau 2.13 a 2.17 isod).

2.9 Gall yr OIM baratoi adroddiad ar y materion a ystyrir a'i gyhoeddi, mewn modd y mae'r OIM yn ei ystyried yn briodol, a fydd yn cynnwys o leiaf gyhoeddiad ar ei wefan.[10]

2.10 Mae Pennod 5 o'r canllawiau hyn yn nodi gwybodaeth bellach am ddull gweithdrefnol yr OIM o drin cynigion y gall trydydd partïon eu gwneud i gynnal adolygiad o dan adran 33 (1).[11]

*Adroddiadau blynyddol a phob pum mlynedd*

2.11 Erbyn 31 Mawrth 2023, ac ar ôl hynny o leiaf unwaith y flwyddyn, rhaid i'r OIM baratoi adroddiad ar:

- weithrediad y farchnad fewnol yn y DU, a
- datblygiadau o ran effeithiolrwydd gweithrediad y farchnad honno.[12]

2.12 Ar ben hynny, erbyn 31 Mawrth 2023, ac o leiaf unwaith bob pum mlynedd ar ôl hynny, baratoi adroddiad ar:

- effeithiolrwydd gweithrediad darpariaethau Rhannau 1 i 3 o'r Ddeddf;
- effaith gweithrediad Rhannau 1 i 3 o'r Ddeddf ar weithrediad a datblygiad y farchnad fewnol yn y DU;
- unrhyw rhyngweithio rhwng gweithrediad Rhannau 1 i 3 o'r Ddeddf a **chytundebau fframwaith cyffredin;**[13] a

[9] Mae adran 33(2) yn nodi 'Caiff y CMA dderbyn ac ystyried unrhyw gynigion y gellir eu gwneud neu eu cyfeirio ato ar gyfer cynnal adolygiad wrth arfer ei bwerau o dan isadran (1)'.
[10] Gweler adran 33 (3) a (4).
[11] Gweler paragraff 5.12.
[12] Adran 33(5).
[13] Gweler Geirfa.

- effaith cytundebau fframwaith cyffredin ar weithrediad a datblygiad y farchnad fewnol yn y DU.[14]

2.13 Rhaid i'r adroddiadau blynyddol a phob pum mlynedd gael eu cyflwyno gerbron deddfwyr ym mhob un o genhedloedd y DU[15] Dylid nodi na fydd yr adroddiadau hyn yn adolygu effaith Protocol Gogledd Iwerddon (neu'r ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol i'w weithredu) ar weithrediad marchnad fewnol y DU.

2.14 Mae Pennod 3 yn nodi'r materion y mae'r OIM yn debygol o'u hystyried mewn adroddiadau a gynhyrchir trwy'r prosesau hyn yn ogystal â dull eglurhaol o ymgymryd â hwy a metrigau pwysig eraill.

***Adroddiadau/cyngor ar ddarpariaethau rheoleiddiol penodol ar gais***

2.15 O dan adrannau 34 i 36 o'r Ddeddf, mae gan yr OIM y swyddogaeth i ddarparu adroddiadau neu gyngor (fel sy'n berthnasol) ar **ddarpariaethau rheoleiddiol** (fel y'u diffinnir ac sy'n dod o fewn cwmpas Rhan 4) ar gais awdurdod cenedlaethol perthnasol.

2.16 I grynhoi, yn ychwanegol at fonitro ac adrodd ar weithrediad swyddogaethau marchnad fewnol y DU a ystyrir ym mharagraffau 2.6 i 2.13 uchod, mae gan yr OIM y swyddogaethau canlynol:

- O dan adran 34, ar gais awdurdod cenedlaethol perthnasol, i gynghori neu ddarparu adroddiad ar 'ddarpariaeth reoleiddiol';
- O dan adran 35, ar gais awdurdod cenedlaethol perthnasol, i ddarparu adroddiad ar ôl i 'ddarpariaeth reoleiddiol' gael ei phasio neu ei chreu; a
- O dan adran 36, ar gais awdurdod cenedlaethol perthnasol, i ddarparu adroddiad ar 'ddarpariaeth reoleiddiol' y maent yn ystyried sy'n cael **effeithiau niweidiol**[16] ar weithrediad effeithiol y farchnad fewnol yn y DU.

2.17 At ddiben Rhan 4 o'r Ddeddf, diffinnir darpariaeth reoleiddiol[17] fel a ganlyn:

- darpariaeth wedi'i chynnwys mewn deddfwriaeth, neu

---

[14] Adran 33(6).
[15] Adran 33(7).
[16] Gweler Geirfa.
[17] Gweler Geirfa.

- darpariaeth ddim o natur ddeddfwriaethol ond a wneir o dan, ac a weithredir gan ddeddfwriaeth, ond

- yn eithrio darpariaeth i'r graddau ei bod yn cynnwys unrhyw beth sy'n angenrheidiol i weithredu Protocol Gogledd Iwerddon.[18]

2.18 Mae darpariaeth reoleiddiol o fewn cwmpas Rhan 4 (ac felly swyddogaethau adrodd OIM o dan adrannau 34 i 36 o'r Ddeddf) os yw'n cwrdd â'r ddau amod canlynol:

- rhaid iddo fod yn ofyniad neu'n ddarpariaeth sy'n dod o dan Rannau 1 i 3 o'r Ddeddf (gweler paragraff 2.5 uchod).[19] Er enghraifft, mewn perthynas â nwyddau, bydd darpariaeth reoleiddiol yn dod o fewn cwmpas adrannau 34 i 36 os yw'n gosod 'gofyniad perthnasol' fel y'i diffinnir yn Rhan 1 (gweler adrannau 3 a 6)[20] at ddibenion yr egwyddor cyd-gydnabod neu beidio â gwahaniaethu ar gyfer nwyddau; a

- rhaid iddo fod yn berthnasol i un neu fwy o'r pedair cenedl, ond nid yw'n berthnasol i'r DU gyfan.[21]

2.19 Yn amodol ar fodloni'r amodau uchod, mewn egwyddor, gall darpariaeth reoleiddiol (fel y'i diffinnir) sy'n arwain at leihau gofynion deddfwriaethol presennol fod o fewn cwmpas Rhan 4.[22]

*Cynghori neu adrodd ar ddarpariaethau rheoleiddiol arfaethedig ar gais*

2.20 O dan adran 34 o'r Ddeddf, caiff yr OIM, ar gais awdurdod cenedlaethol perthnasol (neu ddau neu fwy yn gweithredu ar y cyd), roi cyngor neu ddarparu adroddiad ar ddarpariaeth reoleiddiol arfaethedig yr awdurdod cenedlaethol perthnasol sy'n gofyn amdano neu berson neu gorff y mae'r awdurdod sy'n gwneud cais yn gwneud y cais ar ei ran.[23] Rhaid i'r ddarpariaeth reoleiddiol, os caiff ei phasio neu ei gwneud, fod yn gymwys i diriogaeth yr awdurdod cenedlaethol sy'n gofyn amdani (hynny yw, yn achos cais gan (a) Gweinidogion yr Alban rhaid iddi fod yn berthnasol i'r Alban, (b)

---

[18] Gweler adran 30(8) a (9).

[19] Gweler adran 30(2), 30(3), 30(5) a 30(6).

[20] Mewn termau eang iawn, 'gofyniad perthnasol' yw unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol sy'n ymwneud â ac yn rheoleiddio nwyddau a'u gwerthu (e.e. gofynion cyflwyno/labelu; gofynion cludo; cymeradwyaethau angenrheidiol ac ati) fel y gallai gyfyngu ar allu nwyddau o un rhan o'r DU rhag cael eu gwerthu mewn rhan arall.

[21] Gweler adran 30(4).

[22] Yn ogystal, gall darpariaeth reoleiddiol arfaethedig a fyddai'n diddymu darpariaeth reoleiddio bresennol, heb i unrhyw ddarpariaeth gael ei gwneud i'w haddasu neu i'w diwygio, ddod o fewn cwmpas adran 34 yn unig (gweler yn benodol adran 30 (2) a (3)). Yn amodol, wrth gwrs, ar y ddarpariaeth reoleiddiol arfaethedig yn cwrdd â'r amodau y cyfeirir atynt uchod.

[23] Gweler adran 34(2). Sylwer dim ond yr awdurdod cenedlaethol perthnasol all wneud cais.

Gweinidogion Cymru fod yn berthnasol i Gymru, (c) adran yng Ngogledd Iwerddon fod yn berthnasol i Ogledd Iwerddon, neu (ch) yr Ysgrifennydd Gwladol fod yn berthnasol i unrhyw ran o'r DU).[24]

2.21 Rhaid i'r cais am adroddiad neu gyngor i'r OIM nodi'r rhesymau dros ei wneud.[25] Cyn gwneud cais o'r fath, rhaid iddo ymddangos i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol sy'n gofyn bod y ddarpariaeth reoleiddiol arfaethedig:

- yn disgyn o fewn cwmpas Rhan 4:
- o fewn ei **gymhwysedd perthnasol**;[26] a
- dylid ei ystyried ymhellach yng ngoleuni arwyddocâd ei effeithiau posibl ar weithrediad y farchnad fewnol yn y DU.[27]

2.22 Yn ei gyngor neu adroddiad, gall yr OIM ystyried, ymhlith pethau eraill, **effeithiau economaidd**[28] posibl y ddarpariaeth reoleiddiol arfaethedig ar weithrediad effeithiol y farchnad fewnol yn y DU gan gynnwys:

- effeithiau anuniongyrchol neu gronnus;
- ystumio cystadleuaeth neu fasnach; a
- effeithiau ar brisiau, ansawdd nwyddau a gwasanaethau neu ddewis i ddefnyddwyr.[29]

2.23 Yn ei gyngor neu adroddiadau o dan adran 34, mae'r OIM yn disgwyl y bydd ei brif ffocws ar ystyried effeithiau economaidd y ddarpariaeth reoleiddiol arfaethedig. Beth bynnag, dim ond i'r graddau y mae'r rhain yn effeithio ar weithrediad effeithiol y farchnad fewnol y bydd yr OIM yn ystyried effeithiau darpariaeth reoleiddiol.

2.24 Os bydd yr OIM yn gwrthod darparu adroddiad y gofynnir amdano o dan adran 34(1), bydd yn rhoi rhesymau i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol (neu'r awdurdodau) dros wneud hynny mewn hysbysiad ac yn cyhoeddi'r hysbysiad mewn modd y mae'n ei ystyried yn briodol[30] a fydd yn cynnwys cyhoeddiad ar ei wefan o leiaf.

---

[24] Gweler adrannau 34 (2) ac adran 34(11) am ystyr 'rhan berthnasol o'r Deyrnas Unedig'.
[25] Gweler adran 34(6).
[26] Am ystyr 'cymhwysedd perthnasol', gweler adran 45(5) ac adran 45 (7) i (11). Gweler Geirfa
[27] Gweler adran 34(3)(a) a (b).
[28] Gweler Geirfa
[29] Gweler adran 34(4).
[30] Gweler adran 34(7).

2.25 Rhaid i'r OIM roi ei gyngor neu adroddiad i'r awdurdod (neu awdurdodau) cenedlaethol perthnasol sy'n gofyn. Rhaid i'r OIM ddarparu copi i unrhyw awdurdodau cenedlaethol perthnasol sydd ddim yn gofyn o fewn 15 diwrnod pellach.[31] Bydd adroddiadau hefyd yn cael eu cyhoeddi.[32]

2.26 Mae Pennod 4 yn amlinellu'r dull blaenoriaethu wrth ddelio â cheisiadau ac mae Pennod 5 yn amlinellu sut bydd yr OIM yn rheoli ac yn prosesu ei adroddiadau a chyngor.

*Darparu adroddiad ar gais ar ôl i ddarpariaeth reoleiddiol gael ei phasio neu ei gwneud*

2.27 O dan adran 35 o'r Ddeddf, gall yr OIM, ar gais awdurdod cenedlaethol perthnasol (neu ddau neu fwy yn gweithredu ar y cyd), ddarparu adroddiad i'r awdurdod ar yr effaith ar weithrediad effeithiol y farchnad fewnol yn y DU o ddarpariaeth reoleiddiol sydd:

- yn cael ei phasio neu ei llunio ar ôl y diwrnod y mae adran 35 yn dod i rym;
- yn disgyn o fewn cwmpas Rhan 4 (gweler paragraff 2.18 uchod);
- yn gymwys i'r rhan berthnasol o'r DU,[33] er enghraifft, os yw'r cais yn cael ei wneud gan Weinidog yn yr Alban, mae'r ddarpariaeth reoleiddiol yn berthnasol i'r Alban (gweler paragraff 2.20 uchod); a
- o fewn cymhwysedd perthnasol yr awdurdod sy'n gwneud y cais.[34]

2.28 Rhaid i awdurdod cenedlaethol perthnasol ystyried a yw unrhyw berson neu gorff arall yn gymwys i ddarparu adroddiad annibynnol ar y ddarpariaeth reoleiddiol dan sylw cyn gofyn am adroddiad gan yr OIM o dan adran 35.[35] Rhaid i'r cais nodi'r rhesymau dros wneud y cais.[36]

2.29 Yn ei adroddiadau o dan adran 35, mae'r OIM yn disgwyl y bydd ei brif ffocws ar ystyried effeithiau economaidd y ddarpariaeth reoleiddiol a bydd yn ystyried effeithiau darpariaeth reoleiddiol i'r graddau y mae'r rhain yn effeithio ar weithrediad effeithiol y farchnad fewnol.

---

[31] Gweler adran 34(8) a (9).
[32] Gweler adran 34(10).
[33] Gweler adran 35(7).
[34] Mae Adran35(1)(c) yn cyfeirio at 'gymhwysedd perthnasol' sy'n cael ei ddiffinio yn adran 45(5) ac adran 45(7) i (11).
[35] Adran 35(2).
[36] Adran 35(4).

2.30 Os bydd yr OIM yn gwrthod darparu adroddiad y gofynnir amdano o dan adran 35(1), bydd yn rhoi rhesymau i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol (neu awdurdodau) dros wneud hynny mewn hysbysiad ac yn cyhoeddi'r hysbysiad mewn modd y mae'n ei ystyried yn briodol.[37]

2.31 Mae’r Ddeddf hefyd yn mynnu ar ôl i adroddiad gael ei ddarparu i’r rheiny a ofynnodd amdano, bod rhaid cyhoeddi’r adroddiad.[38]

*Adroddiad ar gais ar ddarpariaeth yr ystyrir ei bod yn cael effeithiau niweidiol*

2.32 O dan adran 36 o'r Ddeddf, caiff yr OIM, ar gais awdurdod cenedlaethol perthnasol (neu ddau neu fwy yn gweithredu ar y cyd), ddarparu adroddiad i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol ar **effaith economaidd**[39] darpariaeth reoleiddio y mae'r awdurdod cenedlaethol perthnasol o'r farn ei fod, neu y gallai fod, yn niweidiol i weithrediad effeithiol y farchnad fewnol yn y DU.[40] Mae’r ddarpariaeth hon yn berthnasol i ddarpariaethau rheoleiddiol yn unig, o fewn cwmpas Rhan 4,[41] sydd wedi’u pasio neu eu gwneud ar ôl i adran 36 ddod i rym.

2.33 Mewn cyferbyniad â cheisiadau a wnaed o dan adrannau 34 a 35, nid yw'r cais wedi'i gyfyngu i ran berthnasol o’r DU'r awdurdod cenedlaethol perthnasol sy'n gofyn amdano. Nid oes angen ychwaith i’r ddarpariaeth reoleiddiol, sy’n destun y cais, fod o fewn cymhwysedd perthnasol yr awdurdod cenedlaethol perthnasol sy’n gwneud y cais. Felly, o dan adran 36, er enghraifft, gallai awdurdod cenedlaethol perthnasol wneud cais yn ymwneud â darpariaeth reoleiddiol sy'n berthnasol i ran arall o'r DU neu sy'n cael ei fabwysiadu gan awdurdod cenedlaethol perthnasol arall.

2.34 Gellir gwneud y cais, ni waeth a yw awdurdod cenedlaethol perthnasol wedi gwneud cais o dan adran 34(1) o'r blaen (gweler paragraff 2.20 uchod).[42]

2.35 Rhaid i awdurdod cenedlaethol perthnasol ystyried a yw unrhyw berson neu gorff arall yn gymwys i ddarparu adroddiad annibynnol ar y ddarpariaeth reoleiddiol dan sylw cyn gofyn am adroddiad gan yr OIM o dan adran 36.[43] Rhaid i'r cais nodi'r rhesymau dros ei wneud.[44]

---

[37] Adran 35(5).
[38] Adran 35(6).
[39] Gweler Geirfa.
[40] Adran 36(1).
[41] Gweler paragraffau 2.18 i 2.19.
[42] Adran 36(2).
[43] Adran 36(3).
[44] Adran 36(5).

2.36 Os bydd yr OIM yn gwrthod darparu adroddiad y gofynnir amdano o dan adran 36(1), bydd yn rhoi rhesymau i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol (neu'r awdurdodau) dros wneud hynny mewn hysbysiad ac yn cyhoeddi'r hysbysiad mewn modd y mae'n ei ystyried yn briodol[45] a fydd yn cynnwys ei gyhoeddi ar ei wefan o leiaf.

2.37 Rhaid rhannu'r adroddiad ar yr un pryd â'r holl awdurdodau cenedlaethol perthnasol gan gynnwys y rhai na wnaeth y cais,[46] a rhaid ei gyhoeddi a'i osod gerbron pob deddfwrfa.[47] Mae Pennod 5 yn amlinellu'r dulliau gweithdrefnol sy'n ymwneud â chynhyrchu'r adroddiadau hyn.

## Trafodaethau anffurfiol

2.38 Mae'r OIM yn fodlon trafod materion sy'n ymwneud â'r swyddogaethau gydag awdurdodau cenedlaethol. Gall trafodaethau o'r fath gynnwys materion cyffredinol neu weithdrefnol. Er enghraifft, gallai trafodaeth rhwng yr OIM ac awdurdod cenedlaethol perthnasol, sy'n ystyried a ddylid gwneud cais o dan adrannau 34 i 36 o'r Ddeddf, fod yn briodol cyn gwneud y cais. Fodd bynnag, wrth gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau sy'n ymwneud â'i swyddogaethau gydag awdurdodau cenedlaethol, bydd yr OIM yn ystyried ei ddyletswydd statudol yn adran 31(4) o'r Ddeddf yn deg o ran yr awdurdodau cenedlaethol perthnasol wrth gyflawni ei swyddogaethau.

2.39 Ni fydd trafodaethau o'r fath yn rhwymo'r OIM mewn unrhyw ffordd ac nid ydynt yn cymryd lle awdurdodau cenedlaethol yn gwneud eu hasesiad eu hunain neu'n cymryd cyngor priodol. Mae'r posibilrwydd o'r OIM yn cymryd rhan mewn trafodaethau o'r fath yn amodol ar natur y mater sydd i'w drafod. Yn benodol, ni fydd trafodaethau anffurfiol yn cynnal eu cynnal yn lle darparu cyngor neu adroddiad o dan swyddogaethau statudol yr OIM.

## Pwerau casglu gwybodaeth

2.40 Er mwyn cyflawni ei swyddogaethau, efallai bydd yr OIM angen casglu gwybodaeth gan fusnesau, awdurdodau cyhoeddus, neu unigolion. Gall yr OIM wneud hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er enghraifft, gall benderfynu, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, i gael y wybodaeth hon trwy geisiadau anffurfiol, neu wahodd partïon perthnasol i fynd i gyfarfodydd neu trwy alwadau ffôn.

---

[45] Adran 36(6).
[46] Adran 36(7).
[47] Adran 36(8) h.y. pob Tŷ Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

2.41 O dan adran 41 o'r Ddeddf, mae gan yr OIM y pŵer hefyd i gyhoeddi rhybudd sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth neu ddogfennau, at ddibenion cynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau o adrodd, monitro a chynghori o dan Ran 4 o'r Ddeddf, neu gan ddefnyddio adran 5 o Ddeddf Menter 2002 (EA02) at y dibenion hyn.

2.42 Yn fwy penodol, at ddibenion cynorthwyo'r OIM i gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 33 i 36 o'r Ddeddf, mae gan yr OIM y pŵer i anfon hysbysiad ysgrifenedig sy'n ei gwneud yn ofynnol:

- i unrhyw berson, sydd yn eu dalfa neu dan eu rheolaeth, gynhyrchu dogfennau, fel y nodir yn yr Hysbysiad;[48] a
- unrhyw berson sy'n cynnal busnes i ddarparu unrhyw wybodaeth fel y nodir neu a ddisgrifir yn yr hysbysiad.[49]

2.43 Rhoddir cyflwyniad byr ym Mhennod 5 ynghylch yr amgylchiadau pan all yr OIM ddefnyddio'r pwerau casglu gwybodaeth hyn wrth gyflawni ei swyddogaethau. Cyn i'r OIM ddefnyddio'r pwerau casglu gwybodaeth hyn, bydd yn rhoi sylw dyledus i effaith unrhyw gais o'r fath ar fusnesau, awdurdodau cyhoeddus, neu unigolion.

2.44 Fel sy'n ofynnol o dan adran 42 o'r Ddeddf, mae'r OIM wedi cyhoeddi datganiad o bolisi sy'n nodi sut y bydd yn gorfodi ei bwerau casglu gwybodaeth.[50]

### *Defnyddio Gwybodaeth a Gasglwyd*

2.45 Mae Rhan 9 EA02 yn gosod cyfyngiad cyffredinol ar ddatgelu gwybodaeth y mae'r CMA yn ei chael wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau (y cyfeirir atynt fel 'gwybodaeth benodol') i bersonau eraill. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau'r OIM.[51] Mae canllawiau ar gymhwyso Rhan 9 EA02 a phryd y caniateir datgelu gwybodaeth benodol wedi'i nodi yn Tryloywder a Datgelu: Datganiad ar Bolisi a Dull Gweithredu'r CMA (CMA 6).[52]

---

[48] Gweler adran 41(2).
[49] Gweler adran 41(3).
[50] OIM, Datganiad o Bolisi ar Orfodi Pwerau Casglu Gwybodaeth yr OIM Medi 2021.
[51] Mae hyn yn rhinwedd adran 41(10) o'r Ddeddf sy'n diwygio atodlen 14 EA02 i ymestyn cwmpas Rhan 9 EA02 i swyddogaethau OIM.
[52] Er bod yr egwyddorion cyffredinol yn berthnasol, bydd datganiad OIM penodol yn cael ei baratoi nes ymlaen.

*Cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol*

2.46 Mae adran 31 (6) o'r Ddeddf yn dweud y caiff yr OIM roi gwybodaeth neu gyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar faterion sy'n ymwneud ag unrhyw un o'i swyddogaethau. Gallwn ddarparu gwybodaeth neu gyngor o'r fath, fel y bo'n briodol, mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd neu ddiffyg effeithlonrwydd pwerau'r OIM wrth gyflawni ei swyddogaethau marchnad fewnol a chyflawni ei nodau a'i amcanion marchnad fewnol. Wrth roi gwybodaeth neu gyngor o'r fath, bydd yr OIM yn rhoi sylw priodol i'r angen i ymddwyn yn deg tuag at yr awdurdodau cenedlaethol perthnasol.

# 3. Y Fframwaith Dadansoddol

3.1 Bydd yr OIM yn asesu ystod eang o dystiolaeth wrth gyflawni ei swyddogaethau. Mae’r bennod hon yn rhoi trosolwg o’n hagwedd at y dadansoddiad hwn, a’r mathau o dystiolaeth mae’n debygol o’i cheisio.

## Egwyddorion cyffredinol

3.2 Bydd llawer o waith dadansoddol yr OIM yn ymwneud ag effaith dulliau rheoleiddiol gwahanol ar ‘weithrediad effeithiol y farchnad fewnol’.[53] Bydd angen teilwra natur a chwmpas dadansoddiad yr OIM i'r amgylchiadau gan gynnwys, er enghraifft, natur a chyd-destun y gwahaniaeth rheoliadol a'r swyddogaeth sy'n cael ei harfer. Serch hynny, yng nghyd-destun cyfrifoldebau cyffredinol yr OIM, a chydnabod y cydbwysedd sydd i’w daro rhwng masnach esmwyth ac ymreolaeth polisi datganoledig, mae’n ystyried bod ‘gweithrediad effeithiol’ yn cynnwys y canlynol:

- Rhwystrau lleiaf posibl i fasnach, buddsoddiad a symud llafur rhwng pob rhan o'r DU (yn amodol ar waharddiadau perthnasol yn y Ddeddf).
- Sicrhau nad yw busnesau neu ddefnyddwyr mewn un rhan o’r DU yn cael eu ffafrio dros eraill.
- Rheolaeth effeithiol o wahaniaeth rheoliadol (yn cynnwys y defnydd o gytundebau fframwaith cyffredin)

## Gwahaniaeth rheoliadol fel rhwystr i fasnach

3.3 Gall gwahaniaethau mewn rheoleiddio gael yr un effaith â threth neu dariff ar gynhyrchion neu wasanaethau o awdurdodaethau eraill oherwydd eu bod yn cyflwyno cost ychwanegol i gynhyrchwyr. Mae'r OECD[54] yn nodi tri math o gostau uniongyrchol sy'n wynebu busnesau o ganlyniad i wahaniaethau rheoliadol: costau manyleb;[55] costau gwybodaeth;[56] a chostau cydymffurfio.[57]

---

[53] Am enghreifftiau gweler adrannau 33(1)(a), 34(4) a 35(1).

[54] OECD, Cydweithredu a Masnach Reoleiddiol Ryngwladol: Deall Costau Masnach Gwahaniaeth Rheoleiddio a'r Atebion (2017).

[55] Mae costau manyleb yn codi lle mae angen i gwmnïau newid manyleb eu cynnyrch, eu proses gynhyrchu neu eu labelu i gydymffurfio â rheoliadau sy'n wahanol i'r rhai sy'n bodoli yn eu marchnad gartref.

[56] Mae costau gwybodaeth (neu ymgyfarwyddo) yn cynnwys, er enghraifft, costau deall gwahanol ofynion rheoliadol mewn gwahanol diriogaethau.

[57] Mae costau cydymffurfiad yn cynnwys er enghraifft y costau sy’n gysylltiedig â chwrdd â phrofion o brofi bod cynnyrch yn gymwys i’w werthu.

3.4 Gall costau sy'n deillio o wahaniaethau rheoliadol fod ar ffurf costau sefydlog (sy'n tueddu i gynyddu'r rhwystrau i fynediad i'r farchnad) a/neu gostau amrywiol (sy'n tueddu i gynyddu prisiau). Gallai dargyfeirio rheoliadol newydd a chostau uwch effeithio ar fasnach rhwng rhanbarthau a chenhedloedd a gwanhau cyfyngiadau cystadleuol, gan gynnwys ar gynhyrchwyr nad yw eu costau'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol. Yn y pendraw, gallai'r costau hyn arwain at brisiau uchel, effeithiau ar ansawdd a llai o ddewis i ddefnyddwyr.

3.5 Barn yr OIM yw y gall amrywiad mewn darpariaethau rheoliadol (gan gynnwys cyfyngiadau ar werthu) gyda'r potensial i effeithio ar fasnach mewn nwyddau gynnwys:[58]

- pecynnu, labelu neu reoliadau dylunio;
- gweithdrefnau profi, archwilio ac ardystio; neu
- rheoliadau amgylcheddol, diogelwch neu ansawdd.

3.6 Gall rhwystrau rheoleiddio posibl i fasnachu mewn gwasanaethau gynnwys:[59]

- gofynion presenoldeb lleol;
- gofynion cymwysterau lleol;
- cyfyngiadau ar strwythur busnes; neu
- amrywiadau mewn gweithdrefnau profi, arolygu ac ardystio.

3.7 Nod yr egwyddorion mynediad i'r farchnad yw cyfyngu ar gostau masnach gwahaniaeth rheoliadol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, trwy hwyluso mynediad i'r farchnad.

## Monitro

3.8 Bydd yr OIM yn monitro datblygiadau perthnasol yn ymwneud â gweithrediad y farchnad fewnol i lywio ei waith. Bydd hyn yn cynnwys:

### *(a) Monitro'r Farchnad Fewnol*

3.9 Monitro'r farchnad i lywio asesiad o newidiadau a datblygiadau perthnasol yn amgylchedd y farchnad fewnol dros amser ac i nodi sectorau neu ddiwydiannau lle mae'r rhain yn digwydd, gan gynnwys astudio effaith

---

[58] Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.
[59] Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

cytundebau fframwaith cyffredin ar ddatblygiad y farchnad fewnol. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio ffynonellau data presennol a datblygu ffynonellau pwrpasol eraill yn ôl yr angen. Yn benodol, bydd yr OIM yn gweithio gyda rhanddeiliaid i wella data masnach o fewn y DU a bydd yn comisiynu ei arolygon ei hun o fusnesau ledled y DU.

***(b) Monitro Rheoliadol***

3.10 Bydd yr OIM yn datblygu pecynnau cymorth a phrosesau i gasglu gwybodaeth am ddatblygiad trefniadau rheoliadol ledled y DU. Mae hyn heb ragfarnu nodau ac amcanion, buddion neu fel arall, y gwahanol ddewisiadau rheoleiddio y mae gwahanol awdurdodau cenedlaethol yn eu gwneud. Gall hyn gynnwys comisiynu ymchwil i sefydlu llinellau sylfaen a meincnodau, ac i ddeall llif a rhwystrau i lif cyfalaf, masnach a llafur i ddatblygu sylfaen dystiolaeth.

***(c) Porth Ar-lein***

3.11 Bydd yr OIM yn lansio **Porth** ar-lein a'i bwrpas fydd casglu gwybodaeth gan ddefnyddwyr, cyflenwyr a chynhyrchwyr (ymhlith eraill) am faterion perthnasol sy'n ymwneud â gweithrediad effeithiol y farchnad fewnol. Bydd yr OIM yn hyrwyddo'r defnydd o'r Porth wrth iddo ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled y DU.

***(d) Gwybodaeth***

3.12 Bydd gwybodaeth a gyflwynir trwy'r Porth yn ategu gwybodaeth a gesglir o ffynonellau eraill (e.e. trwy ryngweithio arferol gyda rhanddeiliaid). Bydd hyn yn helpu'r OIM i adeiladu dealltwriaeth economaidd ddeinamig o ddatblygiad y farchnad fewnol a'r materion y mae busnesau, defnyddwyr ac eraill yn eu profi. Bydd yr OIM yn adolygu'r wybodaeth a gesglir trwy'r ystod lawn o ffynonellau yn rheolaidd a gall benderfynu, ar sail yr adolygiadau hyn, i ddechrau adolygiad ac adroddiad dewisol (o dan adran 33(1) o'r Ddeddf). Gall gwybodaeth a gesglir gan yr OIM hefyd lywio penderfyniadau ynghylch derbyn neu wrthod ceisiadau allanol ar draws pob un o'n swyddogaethau ac asesiadau o arwyddocâd neu effaith gwaith o'r fath (gweler Pennod 4).

## Dull cyffredinol

3.13 Gyda'i gilydd, bydd monitro marchnad a rheoliadol strategol, ochr yn ochr â gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol a gesglir trwy'r Porth ar-lein a gwybodaeth o ffynonellau eraill, yn caniatáu i'r OIM gynnal dadansoddiadau cymharol. Bydd hyn yn cynorthwyo i nodi sectorau, marchnadoedd a materion penodol a pherthnasol i'w hadolygu yn erbyn egwyddorion blaenoriaethu'r OIM, neu i ystyried ymhellach yn ei adroddiadau gorfodol blynyddol a phob pum mlynedd. Gall y dystiolaeth a gesglir gynnwys maint a natur y rheoliadau

a gyflwynir; cymhlethdod rheoliadol a graddau'r gwahaniaeth, mesurau masnach o fewn y DU mewn nwyddau a gwasanaethau, a meysydd eraill o ddiddordeb a pherthnasedd posibl megis: llifau buddsoddi; strwythur y diwydiant; marchnadoedd llafur; a chanlyniadau defnyddwyr.

## Adroddiadau Blynyddol

3.14 Fel y nodir ym Mhennod 2, bydd yr OIM yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar (a) weithrediad y farchnad fewnol yn y DU; a (b) datblygiadau o ran effeithiolrwydd gweithrediad y farchnad.[60] Bwriad yr adroddiad blynyddol yw darparu asesiad blynyddol 'iechyd y farchnad' a fydd yn nodi tueddiadau a datblygiadau eang ym marchnad fewnol y DU, gan gynnwys lefelau integreiddio ar draws gwahanol sectorau, rhanbarthau a chenhedloedd.[61] Bydd yr adroddiad yn cynnwys cyfuniad o ddadansoddiad meintiol ac ansoddol o dystiolaeth berthnasol.

3.15 Gall yr adroddiad gyflwyno a darparu sylwebaeth ar ddata a thystiolaeth arall a gesglir trwy ein hadnoddau monitro (gweler paragraffau 3.8 i 3.13). Gall gynnwys sylwebaeth ar newidiadau rheoliadol mawr penodol gydag effeithiau eang ar draws sectorau, yn ogystal â datblygiadau llai ar lefel sector. Gall yr adroddiad gynnwys tystiolaeth o arolygon a gomisiynwyd gan yr OIM o fusnesau a/neu ddefnyddwyr neu ymchwil arall gan yr OIM, a dadansoddiad o dystiolaeth arolwg ac ymchwil berthnasol a gyhoeddwyd gan ffynonellau allanol. Gall yr adroddiad hefyd ddarparu dadansoddiad o gyflwyniadau a dderbynnir gan bartïon allanol yn ystod y cyfnod blynyddol perthnasol, a sylwebaeth arnynt.

## Adroddiadau Cyfnodol (bob pum mlynedd)

3.16 Fel y nodir ym Mhennod 2, bydd yr OIM yn cynhyrchu adroddiad 5 mlynedd ar (1) effeithiolrwydd gweithrediad Rhannau 1 i 3 o'r Ddeddf; (2) effaith gweithrediad y rhannau hynny ar weithrediad a datblygiad y farchnad fewnol yn y DU; (3) unrhyw ryngweithio rhwng gweithrediad y Rhannau hynny a chytundebau fframwaith cyffredin; a (4) effaith cytundebau fframwaith cyffredin ar weithrediad a datblygiad y farchnad fewnol yn y DU.[62]

3.17 Bydd yr adroddiad hwn yn darparu adolygiad systemig o effaith yr egwyddorion mynediad i'r farchnad. Gall hyn gynnwys effeithiolrwydd, a

[60] Adran 33(5).
[61] Nodiadau Esboniadol Deddf y Farchnad Fewnol – paragraff 283.
[62] Adran 33(6).

lefelau cynefindra â, egwyddorion cyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu, gan gynnwys a all fod angen gwelliannau. Bydd yr adolygiad yn ystyried barn yr holl randdeiliaid perthnasol i gyflwyno trosolwg o ba mor dda y mae'r farchnad fewnol yn gwasanaethu partïon â diddordeb ledled y DU.[63]

3.18 Yn yr un modd â'r adroddiadau blynyddol, gall yr adroddiad hwn gyflwyno a darparu sylwebaeth ar ddata a thystiolaeth berthnasol arall a gesglir trwy ein hoffer monitro (gweler paragraffau 3.8 i 3.13). Mae’r adroddiad yn debygol o ymgorffori darganfyddiadau o ymchwil a gomisiynwyd gan yr OIM, ac o waith ymgysylltu wedi’i dargedu a chyffredinol gyda rhanddeiliaid.

3.19 Bydd yr adroddiad hefyd yn adolygu effaith cytundebau fframwaith cyffredin ar y farchnad fewnol, ac unrhyw ryngweithio rhwng gweithrediad yr egwyddorion mynediad i'r farchnad a chytundebau fframwaith cyffredin. Gall cwmpas y dadansoddiad hwn sy'n ymwneud â chytundebau fframwaith cyffredin gynnwys: nodi'r amodau rheoleiddio a marchnad berthnasol ym mhob un o'r gwledydd; cwmpas y gwahaniaeth a ganiateir a gwahaniaeth gwirioneddol; bodolaeth, maint ac effaith unrhyw waharddiadau cysylltiedig o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad; ac asesiad o'r effeithiau ar fasnach a newidynnau economaidd eraill. Mae hon yn rhestr eglurhaol, nid gynhwysfawr, a byddwn yn addasu ein dull dadansoddol wrth i ni ddysgu o brofiad gweithredol.

## Adolygiadau ac adroddiadau yn ôl disgresiwn o dan adran 33(1)

3.20 Bydd y dull dadansoddol o ymdrin â’r adolygiadau hyn yn hyblyg ac yn cael eu pennu gan eu ffocws penodol. Mae’n debygol y bydd yr OIM yn defnyddio ffynonellau tebyg o dystiolaeth, ac yn cymhwyso mathau tebyg o ddadansoddi, fel gyda’i swyddogaethau adrodd a chynghorol eraill.

## Adroddiadau i roi cyngor neu adroddiadau ar ddarpariaethau rheoleiddiol penodol ar gais

3.21 Fel y nodir ym Mhennod 2 (paragraffau 2.15 i 2.37), mae yna dri math o adroddiad y gall yr OIM eu darparu ar gais awdurdodau cenedlaethol perthnasol. Mae'r fframwaith dadansoddol a ddefnyddir yn debygol o fod yn debyg yn fras ym mhob achos (er y gallai dewis ehangach o ddata fod ar gael i fesur effeithiau mewn adroddiadau adran 35 ac adran 36).

[63] Nodiadau Esboniadol y Ddeddf Marchnad Fewnol, paragraff 284.

***Dull eglurhaol i asesu rheoliadau sy’n cael effaith ar nwyddau neu farchnadoedd gwasanaethau***

*3.22* Mewn perthynas â cheisiadau gan awdurdodau cenedlaethol perthnasol, bydd yr OIM yn ceisio sefydlu effeithiau economaidd tebygol y darpariaethau rheoliadol sy'n cael eu hystyried i'r graddau y mae'r rhain yn effeithio ar weithrediad effeithiol y farchnad fewnol, yng ngoleuni'r egwyddorion mynediad i'r farchnad. Ar bob cam o'r dadansoddiad, bydd math a dyfnder y dadansoddiad a wneir yn cael ei lunio yn ôl natur y mater, ac argaeledd data perthnasol a thystiolaeth arall.

***Natur y ddarpariaeth reoliadol a chynhyrchion yr effeithir arnynt***

3.23 Yn gyntaf, bydd yr OIM yn ystyried elfennau hanfodol y ddarpariaeth(au) sy'n cael eu hystyried, yn enwedig natur y ddarpariaeth reoleiddiol, ei heffeithiau bwriadedig, a'r categorïau o gynhyrchion sy'n destun y ddarpariaeth.

***Maint y fasnach o fewn y DU***

3.24 Bydd yr OIM yn ceisio sefydlu patrymau masnach presennol, gan gynnwys maint cyfredol (cyfeiriad, meintiau, gwerthoedd, tueddiadau) masnach o fewn y DU yn y cynhyrchion yr effeithir arnynt a'r patrymau masnach rhwng y gwahanol wledydd.

***Newidiadau cost neu effeithiau masnach eraill, a’r ymatebion tebygol***

3.25 Yn aml gellir disgwyl i wahaniaeth rheoliadol effeithio ar gostau cyflenwyr yr effeithir arnynt, mewn perthynas â'r rheini nad yw'r newid yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Bydd yr OIM yn ystyried pa effaith y byddai'r rheoliad yn ei chael ar gyflenwyr yr effeithir arnynt o ran eu costau cymharol (wedi'u mesur yn bosibl), neu eu gallu ehangach i gymryd rhan mewn masnach o fewn y DU, gan gynnwys a yw'r rheoliad o bosibl yn gwahaniaethu yn erbyn cyflenwyr sydd wedi'u lleoli mewn gwledydd eraill.

*3.26* Os oes yna gostau ychwanegol, bydd yr OIM yn ystyried pa fath o gostau sy’n gysylltiedig,[64] ac a ydynt yn gostau sefydlog neu amrywiol. Bydd yr OIM hefyd yn ystyried yr ymatebion busnes posibl o ran penderfyniadau gosod prisiau ac ansawdd, neu a ddylid gadael (neu fynd i mewn) i wahanol rannau o'r DU oherwydd gwahaniaeth rheoliadol, ac a yw'r egwyddorion mynediad i'r farchnad yn debygol o gael eu cynnwys er mwyn hwyluso mynediad i'r farchnad.

[64] Gweler paragraff 3.3.

### *Effeithiau ehangach y farchnad a chanlyniadau'r farchnad*

3.27 Bydd yr OIM yn ystyried y set ehangach o gynhyrchion, cyflenwyr a/neu ardaloedd daearyddol a allai gael eu heffeithio oherwydd amnewidiad ochr y galw[65] neu amnewid ochr gyflenwi.[66]

3.28 Bydd yr OIM yn asesu canlyniadau'r farchnad y gellid eu rhagweld (gan gynnwys effeithiau economaidd buddiol posibl) o ran newidiadau mewn prisiau cymharol, ansawdd neu argaeledd cynhyrchion/darparwyr, a'r effeithiau posibl ar lif masnach, cystadleuaeth neu fuddsoddiad.

### *Effeithiau cronnus ac anuniongyrchol*

3.29 Bydd yr OIM yn ystyried a yw effeithiau cronnus yn codi o fodolaeth nifer o wahaniaethau rheoliadol sy’n bodoli o fewn yr un sector.

3.30 Bydd yr OIM yn ystyried a oes effeithiau anuniongyrchol ar gyflenwyr ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi neu gwsmeriaid y cyflenwyr yr effeithir arnynt yn uniongyrchol, yn ogystal ag unrhyw effeithiau cadwyn gyflenwi ehangach yn sgil gwahaniaeth rheoliadol.

### *Marchnadoedd gwasanaethau*

3.31 Ar gyfer darpariaethau rheoliadol sy'n ymwneud â gwasanaethau, bydd y dull sylfaenol yr un fath ag ar gyfer rheoliadau sy'n effeithio ar farchnadoedd nwyddau, ond gall manylion y dadansoddiad a wneir gan yr OIM fod yn wahanol. Gall materion ymwneud mwy â hunaniaeth y darparwyr gwasanaeth a'r ffordd y darperir gwasanaethau, mewn cyferbyniad â nodweddion nwyddau.

### *Casglu tystiolaeth*

3.32 Wrth fynd i'r afael â'r camau a'r cwestiynau dadansoddol hyn, gall yr OIM geisio gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau. Pan fydd awdurdod cenedlaethol perthnasol yn gofyn am gyngor neu adroddiad, bydd disgwyl i'r awdurdod hwnnw ddarparu gwybodaeth fanwl am y ddarpariaeth reoleiddio berthnasol, ei effeithiau arfaethedig a disgwyliedig, a pha bartïon a allai gael eu heffeithio.

---

[65] Amnewid ar ochr y galw yw pan fydd cwsmeriaid yn newid rhai o'u pryniannau o'r cynnyrch yr effeithir arno i gynhyrchion amgen eraill.

[66] Amnewid ar yr ochr cyflenwi yw lle gall cyflenwyr nad ydynt yn cyflenwi cynnyrch neu ardal ddaearyddol ar hyn o bryd ddechrau gwneud hynny.

3.33 Gellir gofyn am wybodaeth a data gan gyflenwyr y mae eu busnesau'n debygol o gael eu heffeithio gan y rheoliad. Ymhlith y ffynonellau eraill y gellir ceisio gwybodaeth ganddynt (trwy geisiadau am wybodaeth wedi'u targedu neu alwadau mwy cyffredinol am dystiolaeth) mae cwsmeriaid, cymdeithasau masnach, sefydliadau busnes a defnyddwyr, cyrff y llywodraeth, rheoleiddwyr, a thrydydd partïon eraill sydd â diddordeb neu sy'n wybodus.

3.34 Gall yr OIM ofyn am ddarparu data, dogfennau, rhagolygon, amcangyfrifon ac ymatebion perthnasol i gwestiynau trwy ddulliau ffurfiol ac anffurfiol. Mae pwerau casglu gwybodaeth yr OIM yn cael eu nodi'n fwy manwl ym mharagraffau 2.40 i 2.45.

***Adnabod cymwysterau proffesiynol***

3.35 Wrth ddarparu cyngor neu adroddiadau ar ddarpariaethau rheoliadol, ar gais awdurdodau cenedlaethol perthnasol, sy'n ymwneud â chydnabod cymwysterau proffesiynol, mae'r ffocws yn debygol o fod ar fynediad unigolion i ymarfer proffesiynol mewn gwahanol rannau o'r DU, yn hytrach nag ar y nodweddion gynhyrchion neu sut y cânt eu cyflenwi.

3.36 Fodd bynnag, bydd y nod sylfaenol yn gyson: nodi effeithiau posibl ar weithrediad y farchnad fewnol, gan gynnwys rhyngweithio rhwng y rheoliad a'r fframwaith mynediad marchnad perthnasol (cydnabyddiaeth awtomatig a thriniaeth gyfartal), a sut y gallai cyfranogwyr y farchnad gael eu heffeithio a sut y disgwylir iddynt ymateb.

# 4. Egwyddorion Blaenoriaethu

4.1 Defnyddir yr egwyddorion a nodir yn y bennod hon i sicrhau bod yr OIM yn targedu ei adnoddau ar faterion sydd fwyaf perthnasol i weithrediad effeithiol y farchnad fewnol ac sydd â'r pwys mwyaf i ddefnyddwyr, busnesau ac awdurdodau cyhoeddus ym mhob gwlad yn y DU.

4.2 Defnyddir yr egwyddorion hyn i lywio penderfyniadau ynghylch pa waith dewisol y bydd yr OIM yn ei wneud, yn benodol pe bai nifer sylweddol o gynigion i'r OIM gynnal adolygiadau ac adroddiadau yn ôl disgresiwn[67] neu geisiadau am adroddiadau neu gyngor ar ddarpariaethau rheoliadol penodol (ar gais awdurdodau cenedlaethol perthnasol),[68] ac i lywio penderfyniadau am wybodaeth neu wybodaeth a nodwyd gan yr OIM trwy ei weithgaredd monitro ei hun. Defnyddir yr egwyddorion hyn hefyd i asesu cynigion, ceisiadau a gwybodaeth o'r fath.

4.3 Wrth ddatblygu'r egwyddorion hyn, adeiladwyd ar brofiad presennol CMA a defnyddiwyd Egwyddorion Blaenoriaethu CMA fel man cychwyn ar gyfer dylunio egwyddorion OIM.

4.4 Mae hyn trwy swyddogaeth newydd a disgwylir i'r dull hwn o ymdrin â blaenoriaethu ddatblygu gyda phrofiad. Mae'r ffactorau a restrir o dan bob egwyddor yn eglurhaol, nid yn gynhwysfawr. Ni fydd yr egwyddorion yn cael eu gweithredu mewn ffordd fecanyddol: mae angen barn ac ymarfer cydbwyso rhesymegol ar gyfer pob achos sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r OIM ystyried yr egwyddorion yn gyffredinol ac ar sail achos wrth achos. Lle bo'n briodol, gellir ystyried ffactorau perthnasol eraill, yn cynnwys portffolio cyffredinol yr OIM bryd hynny.

4.5 Bydd asesiad yn erbyn yr egwyddorion hyn yn parhau dros oes prosiect a rhoddir ystyriaeth i weld a yw prosiect yn gwarantu ymrwymiad parhaus o adnoddau, yn enwedig wrth ei bwyso yn erbyn gwaith posibl arall y gallai'r OIM ei ddatblygu.

## Egwyddor 1 – Arwyddocâd

4.6 Arwyddocâd cymharol y mater, a all gynnwys, ymhlith ffactorau perthnasol eraill ei:

[67] Gweler adran 33(2) o'r Ddeddf.

[68] Gweler adran 34 i 36 o'r Ddeddf.

- **Berthnasedd**: i ba raddau y gellir cysylltu'r effeithiau economaidd a nodwyd yn benodol â gweithrediad effeithiol y farchnad fewnol ac amcanion yr OIM.

- **Priodoldeb**: ai’r OIM sydd yn y sefyllfa orau i gynghori.

- **Amseroldeb**: i ba raddau y mae yna faterion marchnad fewnol sydd angen cyngor amserol i helpu i ddod o hyd i ddatrysiad.

- **Newydd-deb a chyfraniad at dwf gwybodaeth**: a fydd y gwaith yn cynyddu sylfaen wybodaeth yr OIM mewn perthynas â materion marchnad fewnol, yn gyffredinol neu ar draws sectorau economaidd; er enghraifft, p'un a yw'n codi profion cyfreithiol neu economaidd newydd neu gymhleth, neu'n caniatáu profi dulliau dadansoddol newydd.

- **Partneriaeth**: p'un a yw o bosibl yn meithrin neu'n hwyluso dulliau partneriaeth newydd rhwng awdurdodau cenedlaethol perthnasol ar faterion marchnad fewnol. Yn benodol a fu cais gan fwy nag un awdurdod cenedlaethol perthnasol i lywio dulliau rheoleiddio ar y cyd.

- **Paratoi at y dyfodol:** a allai gynorthwyo awdurdodau cenedlaethol perthnasol i atal neu liniaru effeithiau ar y farchnad fewnol yn y dyfodol.

## Egwyddor 2 - Effaith

4.7 Yn agos at y prawf o arwyddocâd mater mae maint yr effaith a ddisgrifir (neu'r effaith debygol) a sut mae hyn yn amlygu ei hun ar draws y farchnad fewnol. Wrth asesu hyn, rhoddir ystyriaeth i, ymhlith ffactorau eraill, yr effaith ar:

- **Ddefnyddwyr**: yn gyffredinol a gyda ffocws penodol ar gwsmeriaid difreintiedig neu agored i niwed o ran pris, ansawdd, ystod neu wasanaeth.

- **Mentrau:** o ran rhwystrau i fasnach, cyflenwi a mynediad i nwyddau, neu effaith ar gystadleuaeth.

- **Masnach:** rhwng gwledydd a rhanbarthau o fewn y DU ac o fewn ac ar draws sectorau.

- **Buddsoddi:** rhwng gwledydd a rhanbarthau’r DU yn ogystal â Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor (FDI), o fewn ac ar draws sectorau.

- **Effeithlonrwydd economaidd cyffredinol** marchnadoedd, cynhyrchiant ac unrhyw effeithiau canlyniadol neu berthnasol ar economi ehangach y DU.

4.8 Gwneir asesiad hefyd o a yw'r OIM, wrth symud ymlaen â'r gwaith hwn, yn gweithredu yn y ffordd **leiaf ymwthiol** sy'n angenrheidiol i gyflawni ei nodau a'i amcanion, gan gyd-fynd â'i ddyletswyddau statudol. Gall hyn, er enghraifft, olygu rhoi blaenoriaeth i adroddiadau neu gyngor (fel sy'n berthnasol) ar ddarpariaethau rheoliadol arfaethedig[69] neu gychwyn adolygiadau ac adroddiadau yn ôl disgresiwn[70] yn gynnar i ddarparu adroddiad cyn i reoliad ddod yn niweidiol o bosibl.

## Egwyddor 3 - Tegwch[71]

4.9 Rhoddir ystyriaeth i sut mae'r mater yn cyfrannu at raglen waith deg a chytbwys ar draws y pedair gwlad ac ar draws y farchnad fewnol yn gyffredinol. Gallai hyn gynnwys blaenoriaethu gwaith mewn gwahanol sectorau, neu ar draws wahanol ranbarthau, lle na fyddai maint yr effaith fel arall yn ei gyfiawnhau.

4.10 Rhoddir pwysau ar nodweddion yr amgylchedd economaidd a rheoliadol ym mhob gwlad sy'n arwain at ganlyniadau gwahanol ar gyfer masnach, cystadleuaeth, defnyddwyr a marchnadoedd trawsffiniol. Bydd hyn yn mynd y tu hwnt i fesurau o effaith absoliwt. Wrth wneud hynny, y nod fydd sicrhau bod gwaith yr OIM yn adlewyrchu anghenion, diddordebau a blaenoriaethau holl genhedloedd y DU yn gyfartal.

## Egwyddor 4 - Adnoddau

4.11 Rhoddir ystyriaeth i oblygiadau unrhyw gynnig ar adnoddau. Mae hyn yn cynnwys a yw gofynion adnoddau'r gwaith yn gymesur â'r buddion o wneud y gwaith, y cyfnod y bydd angen yr adnoddau ac unrhyw arbedion a grëir i'r OIM gan ei alluogi i gyflawni ei amcanion yn fwy effeithlon.

4.12 Wrth ystyried goblygiadau gwaith newydd arfaethedig ar adnoddau, bydd yr holl adnodau fydd eu hangen i wneud y gwaith yn cael eu hystyried. Yn ystod darn o waith, gall yr adnoddau a ddyrennir iddo newid, yn dibynnu ar ei ofynion a gofynion prosiectau eraill, fel bod adnoddau'r OIM yn cael eu dyrannu yn y ffordd fwyaf effeithlon i gwmpasu ein holl waith.

---

[69] O dan adran 34 o'r Ddeddf.
[70] O dan adran 33(1) o'r Ddeddf.
[71] Mae hwn yn gyfeiriad at egwyddor blaenoriaethu'r OIM o "ddidwylledd" sy'n rhoi sylw dyledus, ymhlith pethau eraill, i ddyletswydd statudol yr OIM wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf i "weithredu'n deg mewn perthynas â'r awdurdodau cenedlaethol perthnasol"(a.31 (4)).

# 5. Trefniadau Gweithdrefnol

5.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r gweithdrefnau bydd yr OIM yn eu mabwysiadu wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan Ran 4 o'r Ddeddf. Mae'n egluro sut mae'r OIM yn disgwyl derbyn a rheoli ceisiadau am adroddiadau neu gyngor (fel sy'n berthnasol) ar ddarpariaethau rheoliadol penodol ar gais gan awdurdodau cenedlaethol perthnasol.

## Adroddiadau/cyngor ar ddarpariaethau rheoleiddiol penodol ar gais

5.2 Fel y disgrifir ym Mhennod 2, gall awdurdodau cenedlaethol perthnasol, gan gynnwys lle maent yn gweithredu ar y cyd, ofyn am gyngor neu adroddiadau ar faterion perthnasol gan yr OIM mewn nifer o amgylchiadau. Mae'r adran isod yn amlinellu sut bydd yr OIM yn prosesu ceisiadau o'r fath a'r gofynion gwybodaeth lleiaf sydd rhaid iddynt gynnwys. Mae'n disgrifio'r gofynion penodol sy'n gysylltiedig â phob un o'r swyddogaethau penodol (o dan adrannau 34 i 36 o'r Ddeddf), cyn disgrifio'r weithdrefn gyffredinol a'r gofynion ar gyfer yr OIM wrth ddelio â cheisiadau o'r fath.

### *Cais am adroddiad/cyngor o dan adran 34*

5.3 Fel y nodir yn y fframwaith cyfreithiol ym Mhennod 2, mae'r Ddeddf yn dweud y caiff awdurdodau cenedlaethol perthnasol ofyn naill ai am 'gyngor' neu 'adroddiad' ar reoliad arfaethedig. Ni fydd yr OIM yn gwahaniaethu'n sylweddol yn weithdrefnol rhwng y ddau gysyniad hyn, ac eithrio, lle mae'n briodol gwneud hynny wrth gymhwyso'r gofynion statudol perthnasol.[72]

5.4 Rhaid i geisiadau gan awdurdodau cenedlaethol perthnasol gynnwys o leiaf:

- <u>disgrifiad</u> o'r rheoliad arfaethedig (a chopi os yw ar gael), ei gwmpas arfaethedig a'r pwrpas y mae'n ceisio ei gyflawni, y dyddiad dechrau arfaethedig, ac unrhyw faterion perthnasol eraill gan gynnwys rheoliadau eraill y mae'n croestorri â hwy, prif sectorau'r economi y bydd yn berthnasol iddo, cyrff statudol eraill sydd â diddordeb a'r darpariaethau rheoliadol cyfatebol yng ngwledydd eraill y DU, os yw'n hysbys.

- <u>y rhesymau dros wneud y cais</u> gan gynnwys pam ei bod yn ymddangos i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol y byddai'r ddarpariaeth reoleiddiol arfaethedig yn dod o fewn ei chwmpas a pham mae'n ymddangos iddynt y dylid ystyried y ddarpariaeth reoleiddiol arfaethedig ymhellach yng

---

[72] Gweler adran 34 (7) a (10).

ngoleuni arwyddocâd ei effeithiau posibl ar weithrediad marchnad fewnol y DU.

- cadarnhad ei bod yn ymddangos i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol y byddai'r ddarpariaeth reoliadol arfaethedig yn dod o fewn cymhwysedd perthnasol.

- gwybodaeth i arddangos yn briodol bod y mater yn ymwneud â thiriogaeth yr awdurdod cenedlaethol perthnasol sy'n gwneud y cais.[73]

***Cais am adroddiad o dan adran 35***

5.5 Rhaid i geisiadau gan awdurdodau cenedlaethol perthnasol gynnwys o leiaf:

- copi o'r rheoliad, ei ddyddiad dechrau (neu'r dyddiad arfaethedig), gan gynnwys a yw'n rheoliad newydd neu'n ddiwygiad i reoliad a wnaed cyn 31 Rhagfyr 2020.

- disgrifiad o'r rheoliad, ei gwmpas arfaethedig ac unrhyw faterion perthnasol eraill gan gynnwys rheoliadau eraill y mae'n croestorri â hwy, prif sectorau'r economi y bydd yn berthnasol iddynt, cyrff statudol eraill sydd â diddordeb a'r darpariaethau rheoliadol cyfatebol yng ngwledydd y DU, os yw'n hysbys.

- rhesymau dros wneud y cais gan gynnwys pam fod yr awdurdod cenedlaethol perthnasol yn credu y gallai'r rheoliad ddisgyn o fewn ei gwmpas.

- gwybodaeth i ddangos yn briodol bod y ddarpariaeth reoleiddio o fewn cymhwysedd perthnasol a bod y mater yn ymwneud â thiriogaeth yr awdurdod cenedlaethol perthnasol sy'n gwneud y cais.

- cadarnhad bod yr awdurdod cenedlaethol perthnasol sy'n gofyn amdano wedi ystyried a yw unrhyw berson neu gorff arall (h.y. ac eithrio'r OIM) yn gymwys i ddarparu adroddiad annibynnol ar y mater.

- unrhyw ddarganfyddiadau a wnaed gan Lys neu awdurdod cyfreithiol arall mewn perthynas â gweithrediad y rheoliad.

[73] Cyfeirir ato yn y Ddeddf fel 'rhan berthnasol o'r DU', gweler adrannau 34(2) a 34(11) a pharagraff 2.20.

***Cais am adroddiad o dan adran 36***

5.6 Rhaid i geisiadau gan awdurdodau cenedlaethol perthnasol gynnwys o leiaf:

- copi o'r rheoliad, ei ddyddiad dechrau, gan gynnwys a yw'n rheoliad newydd neu'n ddiwygiad i reoliad a wnaed cyn 31 Rhagfyr 2020, os yw'n hysbys.

- disgrifiad o'r rheoliad, ei gwmpas ac unrhyw faterion perthnasol eraill gan gynnwys rheoliadau eraill y mae'n croestorri â hwy, prif sectorau'r economi y bydd yn berthnasol iddynt, cyrff statudol eraill sydd â diddordeb a'r darpariaethau rheoliadol cyfatebol yng ngwledydd eraill y DU, os yw'n hysbys.

- rhesymau dros y cais gan gynnwys pam mae'r awdurdod cenedlaethol perthnasol sy'n gofyn yn credu y gallai'r rheoliad ddod o fewn ei gwmpas a pham ei fod o'r farn bod gweithrediad y ddarpariaeth reoleiddio yn niweidiol, neu y gallai fod, yn niweidiol i weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU.

- cadarnhad bod yr awdurdod cenedlaethol perthnasol sy'n gofyn amdano wedi ystyried a yw unrhyw berson neu gorff arall (h.y. ac eithrio'r OIM) yn gymwys i ddarparu adroddiad annibynnol ar y mater.

- unrhyw ddarganfyddiadau a wnaed gan Lys neu awdurdod cyfreithiol arall mewn perthynas â gweithrediad y rheoliad.

## Rhesymau dros wrthod

5.7 Os yw'r OIM, mewn mater penodol, yn arfer ei ddisgresiwn i wrthod cais am adroddiad gan awdurdod cenedlaethol perthnasol, bydd yn cyhoeddi hysbysiad yn nodi'n glir y **rhesymau dros wrthod**.[74] Gall hyn gynnwys, ymhlith ffactorau eraill, y canlynol:

- mae gwybodaeth annigonol wedi'i darparu i'n caniatáu i wneud penderfyniad gwybodus ar y cais;

- fel mater o gyfraith, nid yw'r OIM yn ystyried bod y rheoliad yn disgyn o fewn y cwmpas;

[74] Gweler Geirfa

- lle bo hynny'n berthnasol, mae yna seiliau sy'n dangos yn briodol nad yw'r ddarpariaeth reoleiddiol yn dod o fewn cymhwysedd perthnasol yr awdurdod cenedlaethol perthnasol sy'n gofyn amdano;
- mae rhywun arall neu gorff arall mewn sefyllfa well i ddarparu adroddiad annibynnol;
- mae'r cais wedi'i asesu yn erbyn yr egwyddorion blaenoriaethu ym Mhennod 4 ac nid yw wedi'i flaenoriaethu ar gyfer gweithredu.

## Amserlenni

5.8 Bydd yr OIM yn anelu at ddarparu ymateb cychwynnol i bob cais am adroddiadau neu gyngor (fel sy'n berthnasol) o dan adrannau 34 i 36 o'r Ddeddf yn nodi a yw'n eu derbyn ai peidio o fewn **20 diwrnod gwaith**.

5.9 Os yw'r OIM yn cytuno i ddarparu adroddiad neu gyngor (fel sy'n berthnasol) bydd yn anelu at gwblhau pob adolygiad cyn pen **26 wythnos**, neu'n gynt, yn dibynnu ar gymhlethdod a brys y mater. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen i'r OIM ymestyn yr amserlen hon ac os felly bydd yn cysylltu â'r awdurdod cenedlaethol perthnasol sy'n gofyn amdano mewn da bryd i esbonio'r rhesymau, ac yn nodi amserlen ddiwygiedig na all fod yn fwy na **26 wythnos** arall.

5.10 Mae'r OIM yn cydnabod y gallai natur unrhyw broses datblygu deddfwriaethol ei gwneud yn ofynnol iddo fabwysiadu dull mwy hyblyg o ymdrin â cheisiadau am adroddiadau neu gyngor o dan adran 34 y bydd yn cytuno â'r awdurdod cenedlaethol perthnasol sy'n gofyn amdano.

5.11 Ar ôl darparu adroddiad neu roi cyngor o dan adran 34, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r OIM gopïo unrhyw gyngor neu adroddiadau y mae'n eu darparu i awdurdodau cenedlaethol perthnasol eraill (cyn pen 15 diwrnod, gan ddechrau gyda'r diwrnod ar ôl i'r adroddiad neu'r cyngor gael ei ddarparu i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol a ofynnodd amdano). Bydd yr OIM yn rhoi cyfle i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol sy'n gwneud cais wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y ddogfen hon cyn iddi wneud hynny.

## Swyddogaeth monitro ac adrodd ar weithrediad y farchnad fewnol

5.12 Mae Pennod 3 yn nodi, ymhlith pethau eraill, y dull dadansoddol o ymdrin â'r swyddogaethau monitro ac adrodd o dan adran 33 o'r Ddeddf gan gynnwys yr adroddiadau blynyddol a phum mlynedd y mae'n ofynnol i'r OIM eu cynhyrchu. Yn ogystal, efallai y bydd cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol eraill am

gynnig ein bod yn cynnal adolygiad o fater marchnad fewnol.[75] Asesir pob cynnig o'r fath yn erbyn yr Egwyddorion Blaenoriaethu OIM a nodir ym Mhennod 4.

## Y weithdrefn casglu gwybodaeth

5.13 Mae Pennod 2 yn nodi sail gyfreithiol pwerau casglu gwybodaeth yr OIM. Rhoddir mwy o fanylion gweithdrefnol isod ac yn Natganiad Polisi'r OIM.[76]

### *Ceisiadau am wybodaeth ysgrifenedig*

5.14 Bydd yr OIM, lle bo hynny'n briodol, yn anfon ceisiadau gwybodaeth ffurfiol (hysbysiadau adran 41) yn ysgrifenedig i gael gwybodaeth gan fusnesau, awdurdodau cyhoeddus, neu unigolion.

5.15 O dan y pŵer hwn, gall yr OIM ofyn am wybodaeth neu ddogfennau sydd ym meddiant neu o dan reolaeth yr unigolyn, yn ogystal â gwybodaeth nad yw eisoes wedi'i nodi, megis amcangyfrifon cyfran y farchnad yn seiliedig ar wybodaeth neu brofiad. Efallai y bydd yr OIM hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r busnes ddarparu esboniad o unrhyw ddogfen a gynhyrchir. Mae enghreifftiau o'r mathau o wybodaeth y gall yr OIM ofyn amdanynt yn cynnwys adroddiadau busnes mewnol, dogfennau strategaeth a data mewnol arall.

5.16 Bydd hysbysiadau adran 41 yr OIM yn nodi eu pwrpas a'r swyddogaeth OIM berthnasol y mae'r cais yn ymwneud â hi, yn nodi neu'n disgrifio'r dogfennau a/ neu'r wybodaeth y mae'r OIM yn gofyn amdanyn nhw, yn rhoi manylion am ble a phryd y mae'n rhaid eu cynhyrchu ac yn nodi'r canlyniadau, os o gwbl, y gallai fod yn berthnasol os nad yw'r derbynnydd yn cydymffurfio.

5.17 Bydd yr OIM yn ceisio gosod terfyn amser rhesymol ar gyfer pob cais am wybodaeth ac yn ystyried sylwadau derbynwyr ar y cais. Dylai cyfeirwyr adran 41 gysylltu â'r OIM cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn cais a rhoi gwybod am unrhyw anhawster wrth ymateb - er enghraifft, o ystyried natur y wybodaeth y gofynnir amdani, neu'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Bydd yr OIM yn trafod unrhyw ymholiadau a godir gan gyfeirwyr gan gynnwys unrhyw anhawster wrth gyflwyno'r wybodaeth yn y fformat y gofynnwyd amdano neu o fewn yr amserlen y gofynnwyd amdani.

---

[75] O dan adran 33(1) a (2) o’r Ddeddf.

[76] OIM, Datganiad ar Bolisi Gorfodi Pwerau Casglu Gwybodaeth yr OIM Medi 2021.

# 6. Geirfa

6.1 Mae’r Ddeddf yn cyflwyno cyfres o gysyniadau newydd yng nghyd-destun domestig y DU. Mae’r Eirfa hon yn rhoi canllaw ar sut y gellir eu deall mewn perthynas â swyddogaethau’r OIM.

## Cyngor

6.2 Mae’r Ddeddf yn nodi yn Adran 34 y gall yr OIM roi cyngor ar gynnig cymwys ar gais awdurdod cenedlaethol perthnasol. Mae’n diffinio ‘cyngor’ yn wahanol i ‘adroddiad’, er enghraifft, trwy fynnu bod adroddiadau’n cael eu cyhoeddi gan yr OIM tra nad oes gan gyngor unrhyw ofyniad o’r fath. Fodd bynnag, rhaid rhannu cyngor a roddir gan yr OIM ar gais un awdurdod cenedlaethol perthnasol (neu awdurdodau) gyda'r awdurdodau cenedlaethol perthnasol eraill (nad ydynt wedi gwneud cais) (gweler adran 34(9)). Dylid ei wahaniaethu oddi wrth gyngor y gall yr OIM ei roi i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 31(6) (gweler para. 2.43).

## Cytundebau fframwaith cyffredin

6.3 Diffinnir cytundeb fframwaith cyffredin yn y Ddeddf fel 'consensws rhwng Gweinidog y Goron ac un neu fwy o wledydd datganoledig ynghylch sut y mae materion datganoledig neu drosglwyddedig a lywodraethwyd yn flaenorol gan gyfreithiau'r UE i gael eu rheoleiddio ar ôl diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu' (adran 18(4)). ‘Diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu’ yw 31 Rhagfyr 2020 am 11:00pm.

## Effeithiau andwyol

6.4 Unrhyw reoliad sydd naill ai'n gwneud, neu sydd â'r potensial i greu unrhyw rwystrau, cyfyngiadau neu ystumiadau i fasnach sy'n dod i fodolaeth ar ôl mabwysiadu’r Ddeddf fel un a allai gael effaith ar weithrediad effeithiol y farchnad fewnol.

## Effeithiau economaidd

6.5 Fel y nodir yn adran 34 a 36 o’r Ddeddf, mae effeithiau economaidd yn cynnwys:

- Effeithiau ar gystadleuaeth neu fasnach;
- Effeithiau ar brisiau, ansawdd nwyddau neu wasanaethau, neu ddewis i ddefnyddwyr.

Gallai'r rhain gynnwys effeithiau ar: bris, ansawdd, allbwn, maint llif masnach, cadwyni cyflenwi, symudedd pobl a chyfalaf dynol, llif cyfalaf ariannol, llif gwybodaeth a chyfalaf deallusol, a newidiadau sylweddol yn y dirwedd gystadleuol (e.e. rhwystrau i fynediad, gostyngiad yn nifer y cyflenwyr).

6.6 Gall yr effeithiau hyn fod yn uniongyrchol, anuniongyrchol neu gronnus (yn codi o gydadwaith rheoliadau).

## Y Porth

6.7 Porth ar-lein sy’n caniatáu i fusnesau a rhanddeiliaid eraill gyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth i’r OIM.

## Egwyddorion mynediad i’r farchnad

6.8 Diffinnir yr egwyddorion mynediad i'r farchnad yn adran 1(2) o'r Ddeddf fel: “(a) yr egwyddor cyd-gydnabod ar gyfer nwyddau (gweler adrannau 2 i 4); a (b) yr egwyddor peidio â gwahaniaethu ar gyfer nwyddau (gweler adrannau 5 i 9) ”. Gweler ymhellach paragraff 2.5. Mae’r un egwyddor yn berthnasol i wasanaethau (gweler Rhan 2 o’r Ddeddf).

## Chydgydnabod

6.9 Mae'r egwyddor cyd-gydnabod yn golygu, er enghraifft, mewn perthynas â nwyddau, os yw nwydd yn cydymffurfio â gofynion statudol perthnasol yn y rhan o'r DU lle cafodd ei gynhyrchu neu ei fewnforio iddo, gellir ei werthu mewn unrhyw ran arall o'r DU heb orfod cydymffurfio â’r gofynion statudol perthnasol yno.

## Peidio â gwahaniaethu

6.10 Mae'r egwyddor peidio â gwahaniaethu yn golygu, er enghraifft, mewn perthynas â nwyddau na fydd gofyniad statudol perthnasol yn cael unrhyw effaith os yw, ac i'r graddau ei fod, naill ai'n gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn nwyddau sydd â chysylltiad perthnasol â rhan arall o'r DU.

- Mae **gwahaniaethu uniongyrchol** yn digwydd mewn perthynas â nwyddau sy’n dod i mewn sydd â chysylltiad perthnasol gyda rhan arall o’r DU, ac mae yna ofyniad perthnasol yn berthnasol i’r nwyddau hynny, ond sydd ddim neu fyddai ddim yn berthnasol i nwyddau lleol, ac sydd felly’n rhoi’r nwyddau sy’n dod i mewn o dan anfantais o’i gymharu â nwyddau lleol.

- Mae **gwahaniaethu anuniongyrchol** yn digwydd, yn gyffredinol, pan fo gofyniad perthnasol, nad yw'n gwahaniaethu'n uniongyrchol, yn rhoi nwyddau sy'n dod i mewn o dan anfantais o’i gymharu â nwyddau lleol ac o ganlyniad yn cael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth i’r nwyddau hynny.

## Rhesymau dros wrthod

6.11 Mae'n ofynnol i'r OIM, er enghraifft, gan adran 34(7) o'r Ddeddf roi rhybudd i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol sy'n gofyn am ei resymau dros wrthod darparu adroddiad ar gynnig cymwys.

## Darpariaeth reoliadol

6.12 At ddibenion Rhan 4 o'r Ddeddf, diffinnir 'darpariaeth reoliadol' fel darpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn deddfwriaeth, neu ddarpariaeth nad yw o natur ddeddfwriaethol ond a wneir o dan, ac a roddir grym iddi gan ddeddfwriaeth, ond sy'n eithrio darpariaeth i'r graddau y mae’n cynnwys unrhyw beth sy'n angenrheidiol i roi grym i Brotocol Gogledd Iwerddon (adran 30(8) i (9) o'r Ddeddf).

## Cymhwysedd perthnasol

6.13 Yn golygu cymhwysedd datganoledig priodol Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru ac adran yng Ngogledd Iwerddon. Mewn perthynas â'r Ysgrifennydd Gwladol mae'n golygu cymhwysedd a gadwyd yn ôl (h.y. materion nad ydynt wedi'u datganoli). Mae'r Ddeddf yn nodi sut y dylid dehongli cymhwysedd datganoledig (yn y drefn honno) a chymhwysedd a gadwyd yn ôl yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon (adrannau 45 (7) i (11)).

## Awdurdod cenedlaethol perthnasol

6.14 Yn golygu'r Ysgrifennydd Gwladol; Gweinidogion yr Alban; Gweinidogion Cymru; ac adran yng Ngogledd Iwerddon, fel sy’n berthnasol (adran 45(6) o'r Ddeddf).